

## Datganiad Diogelu Arian Cleient yr Asiant

Os yw Asiant sy'n gwneud cais am drwydded yn nodi nad yw'n trin unrhyw arian cleient fel rhan o'i waith fel Asiant yng Nghymru, bydd Rhentu Doeth Cymru yn derbyn hyn ac felly ni fyddant yn gofyn i'r asiant fod ag Amddifyniad Arian Cleientiaid (CMP), ond dim ond os caiff y ffurflen ei llofnodi a'i chyflwyno fel tystiolaeth gyda'r cais

Mae arian cleient yn cynnwys arian rhent, blaendaliadau neu gronfeydd eraill (boed hynny ar ffurf arian parod, siec, drafft neu drosglwyddiad electronig) y mae Asiant yn ei gadw neu'n ei dderbyn ar gyfer neu gan **gleient** ac nad yw'n daladwy'n syth ond yn daladwy ar alw i'r Asiant ar gyfer ei gyfrif ei hun.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gofyn i asiantau fod â chynllun diogelu arian y cleient pan fônt yn gwneud gwaith gosod a rheoli ar ran landlordiaid nad ydynt yn aelodau o'u teulu agos. Cyflwynir tystiolaeth o gynllun diogelu arian y cleient naill ai gan yr ymgeisydd fel rhan o gais neu gellir ei ychwanegu at amod i ganiatáu trwydded a bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth bod yswiriant ganddo o fewn 6 wythnos wedi caniatáu'r drwydded. Mae amodau trwyddedu hefyd yn gofyn bod yswiriant diogelu arian y cleient yn weithredol trwy gydol cyfnod y drwydded (pan yr ymdrinnir ag arian cleient).

Llofnodwch, dyddiwch a dychwelwch y datganiad amgaeedig. Gallwch naill ai ei uwchlwytho'n syth i'ch cyfrif ar-lein dan adran "Proffil yr Asiant" (pan ofynnir am dystiolaeth o yswiriant diogelu arian y cleient) neu dychwelwch e'n syth atom trwy e-bost i [rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk](mailto:rhentudoethcymru@caerdydd.gov.uk)

Ni fydd eich cais wedi ei gwblhau oni ddychwelyd y datganiad hwn.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am Rentu Doeth Cymru, y broses drwyddedu neu'r datganiad hwn, peidiwch oedi cyn cysylltu gyda ni ar 03000 133344.

## DATGANIAD CAIS TRWYDDED ASIANT

**Nid wyf yn dal nac yn derbyn unrhyw arian cleient ar hyn o bryd.**

Rwyf/rydym yn datgan nad wyf/ydym yn trin arian ar ran unrhyw gleient ar hyn o bryd ac rwy'n/rydym yn deall bod yn rhaid i mi/ni gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod gennyf/gennym gynllun diogelu arian y cleient i Rentu Doeth Cymru o fewn 6 wythnos wedi i ni gychwyn dal neu dderbyn unrhyw arian cleient. Rwyf/rydym yn deall y bydd peidio â gwneud hynny yn arwain at ddiddymu'r drwydded asiant.

Rwy'n/rydym yn datgan bod yr wybodaeth sydd yn y datganiad hwn yn gywir hyd ag y gwn/gwyddom. Rwy'n/rydym yn deall fy mod/ein bod yn troseddu os ydw/ydym yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod trwyddedu yn gysylltiedig ag unrhyw un o'i bwerau dan Ran 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac yr ydw/ydym yn gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol neu os wyf/ydym yn ddiotal ynghylch a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

<b>Enw'r Sawl sy'n Gwneud Cais am Drwydded Asiant:</b>	
<b>Cyfeiriad Gohebu'r Asiant</b>	
<b>Rhif ffôn yr Asiant:</b>	
<b>Cyfeiriad e-bost yr Asiant:</b>	
<b>Rhif Cyfeirnod yr Asiant</b>	<b>#A2-</b>

Printiwch

eich

Enw:

Llofnod:

Dyddiad:

Dylai'r ymgeisydd gwblhau'r ffurflen hon neu, os delir atwrneiaeth, y person a enwebwyd fel y twnai. Mae angen llofnod i yrru'r cais am drwydded asiant yn ei flaen.